# Ynglŷn â’r swydd

**Bydd adran hynaf y gyfraith o blith prifysgolion Cymru yn dathlu ei phen blwydd yn 125 oed yn 2026, yn ogystal ag ugain mlynedd yn dysgu Troseddeg, ac mae hyn yn gyfle cyffrous i arweinydd academaidd rhagorol lunio cyfnod nesaf ei datblygiad.**

Rydym nawr yn chwilio am Bennaeth Adran newydd i arwain yr Adran i gyflawni Strategaeth newydd y Brifysgol. Rydym yn chwilio am arweinydd cynhwysol, strategol, a fydd yn gweithio’n rhan o’r Gyfadran newydd ac yn datblygu enw da cadarn i’r Adran. Mae’n gyfnod cyffrous i ymuno â’r Brifysgol ac mae’r cyfle hwn yn siawns i wneud cyfraniad sylweddol i lwyddiant PA dros y blynyddoedd nesaf.  Disgwyliwn i chi fod ag enw academaidd ardderchog mewn maes perthnasol ac angerdd gwirioneddol am addysg, ymchwil a phwysigrwydd effaith gymdeithasol ac economaidd Prifysgolion.

Mae’r Pennaeth Adran yn rhoi arweiniad academaidd; yn annog a datblygu rhagoriaeth wrth ddysgu ac ymchwilio; yn rheoli a datblygu’r Adran, ei staff a’i gweithgareddau trwy ddefnyddio’r adnoddau a ddyrennir iddi gan y Gyfadran yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon; ac, o fewn i fframwaith cynllun strategol a pholisïau’r Brifysgol a’r Gyfadran, yn cynrychioli’r adran yn y Brifysgol.

Mae’r swydd yn atebol i Ddirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran ac yn aelod o Grŵp Gweithredol y Gyfadran.



# Cyfrifoldebau Allweddol

Gallai'r disgrifiad swydd hwn gael ei adolygu a'i newid yn sgil newid yn anghenion y Brifysgol, i roi cyfleoedd datblygu priodol, ac/neu i ychwanegu dyletswyddau rhesymol eraill.

## Arweinyddiaeth academaidd

Gan weithio gyda Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Dyniaethau:

- Sicrhau bod yr Adran yn gweithredu o fewn rheoliadau a gweithdrefnau ariannol y Brifysgol a sicrhau bod yr holl dargedau o ran perfformiad ariannol ac academaidd yn cael eu bodloni;
- Bod yn gyfrifol am lunio a datblygu cynlluniau Adrannol, yn unol â gofynion cynllunio integredig y Gyfadran a'r Brifysgol;
- Bod yn gyfrifol am berfformiad yn yr Adran yn gyffredinol fel ei bod yn cyd-fynd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol a thargedau a osodir gan y Gyfadran a'r Brifysgol. Bydd hyn yn cynnwys yr holl feysydd perfformio allweddol y tu hwnt i berfformiad ariannol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r ACF, a denu myfyrwyr;
- Sicrhau defnydd priodol o le o fewn y gofod sydd ar gael i'r Adran, gan weithio gyda'r Gyfadran i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi rheoli gofod;
- Gweithio'n agos gydag arweinwyr academaidd a phroffesiynol ar draws y cyfadrannau i sicrhau bod gan yr Adran gynlluniau rheoli adnoddau effeithiol ar waith ar gyfer parhad busnes pe bai tarfu ar adeiladau, prosesau, systemau neu staffio sy'n cyd-fynd ag adrannau eraill a'r gyfadran;
- Cynnal ac ehangu enw da eu disgyblaeth a'u hadran yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan hyrwyddo enw da'r Gyfadran pan fo'n briodol;
- Cynnal proffil ymchwil personol.

## Rheoli a Gweinyddu

- Cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a rheoli Cyfadran y Dyniaethau yn strategol, fel aelod o Bwyllgor Gweithredol y Gyfadran;
- Sicrhau bod staff a myfyrwyr yn cael eu cynghori'n briodol i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau'r Gyfadran a'r Brifysgol a'r gweithdrefnau sy'n effeithio arnynt;
- Sicrhau bod yr Adran yn datblygu ac yn cytuno ar fodiwlau a chynlluniau gradd, gan gynnwys darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Ymgymryd â thasgau ar lefel y Gyfadran yn unol â gofynion Tîm Gweithredol y Gyfadran;
- Adnabod tasgau gweinyddol a'u dirprwyo i grwpiau ac unigolion addas; neu sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n briodol yn y Gyfadran trwy gydlynu â Rheolwr Gweithrediadau'r Gyfadran;
- Cyfrifol am sicrhau bod llwyth gwaith y staff wedi'i ddosbarthu'n deg, a sicrhau y cedwir at unrhyw fodel llwyth gwaith;
- Datblygu, gweithredu a monitro mecanweithiau sicrhau ansawdd priodol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau PA, gan adrodd i'r Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr;
- Sicrhau bod gofynion cyfreithiol yn cael eu bodloni a bod yn ymwybodol o bolisïau, systemau a gweithdrefnau PA a sicrhau y cedwir atynt, a bod yr wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â'r staff fel sy'n addas.

# Cyfrifoldebau Allweddol (parhad)

### Rheoli Addysgu ac Asesu

Gan weithio gyda'r Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol ar gyfer Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr yng Nghyfadran y Dyniaethau:

- Sicrhau bod yr Adran yn parhau i ddarparu dysgu ac addysgu o ansawdd uchel o fewn cyfres o raglenni gradd rhagorol ar bob lefel;
- Sicrhau bod yr Adran yn darparu amgylchedd dysgu priodol i optimeiddio profiad y myfyriwr;
- Sicrhau lefelau priodol o gymorth yn unol â pholisïau'r Gyfadran a'r Brifysgol ar gyfer dilyniant academaidd a lles myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn yr Adran;
- Darparu arweinyddiaeth wrth baratoi ar gyfer archwiliad a gweithgareddau sicrhau ansawdd eraill gan gynnwys achrediad proffesiynol.

### Rheoli Ymchwil

Gan weithio gyda'r Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol ar gyfer Ymchwil yng Nghyfadran y Dyniaethau:

- Sicrhau bod yr Adran yn hyrwyddo ac yn meithrin diwylliant o ragoriaeth ymchwil gyda llywodraethu ymchwil a gweithdrefnau cysylltiedig priodol gan gynnwys adolygu gan gymheiriaid a monitro perfformiad ymchwil;
- Cynghori ac arwain ar fentrau ymchwil strategol (cynyddu ceisiadau am gyllid ymchwil, ennill grantiau mwy, paratoi ar gyfer cymrodoriaethau, ymchwil amlddisgyblaethol, cyflwyniadau i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ac ati);
- Arwain gweithgareddau menter fasnachol, trwy ddod o hyd i feysydd y gellid eu datblygu neu anelu atynt yn y dyfodol, a manteisio ar y cyfleoedd hynny, gan hyrwyddo gwaith cynhyrchu incwm. Gwneir hynny yn benodol drwy ddilyn strategaethau masnachol perthnasol y Gyfadran, ac annog gweithio gyda Swyddfa Ymchwil y Brifysgol;
- Hyrwyddo diwylliant ymchwil sy'n denu, datblygu a chadw ein hacademyddion, ymchwilwyr a myfyrwyr ôl-raddedig.

### Rheoli Pobl

- Rheoli, trefnu a datblygu staff adrannol o bob categori, yn unol â chyfyngiadau cyllidol a chanllawiau staffio'r Gyfadran;
- Datblygu arferion effeithiol i ddenu a chadw staff yn unol ag arfer a pholisïau'r Brifysgol, gan gyfeirio at bartner dynodedig y Gyfadran yn Adnoddau Dynol;
- Sicrhau bod yr holl staff yn cael cyflwyniad priodol ar ôl eu penodi i'r adran neu pan fyddant yn ymgymryd â chyfrifoldebau a swyddogaethau newydd sylweddol yn yr adran;
- Gwybod a gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol yng nghyswllt y staff;
- Gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol sy'n ymwneud â'r staff o ran eu cloriannu, eu hyfforddi a'u datblygu, rheoli eu perfformiad, presenoldeb (gan gynnwys rheoli absenoldeb salwch a gweithredu diwydiannol), drwy fanteisio ar gymorth y partner dynodedig i'r Gyfadran yn adran Adnoddau Dynol;
- Datblygu a hyrwyddo prosesau cyfathrebu effeithiol a phriodol o fewn yr adran (staff a myfyrwyr), a rhwng yr adran, y Gyfadran ac adrannau eraill i sicrhau llif gwybodaeth briodol;
- Sicrhau bod yr adran yn gyfarwydd â Pholisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb y Brifysgol a'i weithdrefnau (fel y maent yn berthnasol i'r staff a'r myfyrwyr) a'u bod yn cael eu rhoi ar waith;
- Sicrhau bod yr adran yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg statudol yn unol â gofynion mae Comisiynydd y Gymraeg yn eu gosod ar y Brifysgol;
- Meithrin diwylliant sy'n gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar gyflawni, gan annog y staff i gymryd rhan a'u hysbrydoli i gyflawni er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr yn gwneud cynnydd a chyflawni mewn amgylchedd ysgogol a chreadigol.

### Cyfrifoldebau Eraill

- Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch sy'n briodol i'r swydd;
- Ymrwymo i Bolisi Cyfle Cyfartal ac Amrywioldeb y Brifysgol ac i Safonau'r Iaith Gymraeg, a deall sut maent yn gweithredu o fewn i gyfrifoldebau'r swydd;
- Ymrwymo i'ch datblygiad eich hun a datblygiad eich staff drwy ddefnyddio trefn Datblygu Staff ac Arolygu Perfformiad y Brifysgol yn effeithiol;
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill y gofynnir ichi eu cyflawni.

# Manyleb yr Unigolyn

## Hanfodol

### Cymwysterau:

- Dylai ymgeiswyr feddu ar radd uwch (PhD neu gyfwerth) mewn disgyblaeth briodol neu gymhwyster proffesiynol priodol.

### Profiad neu ddealltwriaeth o'r canlynol:

- Tystiolaeth amlwg i arwain newid yn effeithiol.
- Cefndir llwyddiannus o arwain a rheoli academaidd, gyda'r gallu i ysgogi a chymell eraill i berfformio ar lefel uchel.
- Rheoli gwariant yn effeithiol, a dealltwriaeth drylwyr o reoliadau a gweithdrefnau ariannol y Brifysgol.
- Ymrwymiad i wneud cyfraniad cryf at ddatblygu Strategaethau Dysgu ac Addysgu effeithiol, a thystiolaeth o'r cyfraniad hwnnw.
- Cyfraniad effeithiol at ddatblygu amgylchedd ymchwil adrannol cryf.
- Prawf o ymroddiad i addysgu a arweinir gan ymchwil.

### Gwybodaeth:

- Dealltwriaeth o amgylchedd allanol Addysg Uwch, yn nhermau ffynonellau cyllid ar gyfer gwaith dysgu ac ymchwil.

### Sgiliau:

- Dawn gyfathrebu ardderchog.
- Prawf o'r gallu i reoli ac ysbrydoli staff ar bob lefel, a thystiolaeth o gyfraniad at ddatblygiad a pherfformiad cydweithwyr.
- Gallu monitro cyllidebau ar y cyd â'r Gyfadran a'r Swyddfa Gyllid.
- Gallu dadansoddi gwybodaeth am reoli a data a'u defnyddio i gefnogi penderfyniadau.
- Gallu dangos ymrwymiad i genhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd y Brifysgol.
- Ymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb ac amrywioldeb a gweithle a phrofiad myfyrwyr cynhwysol.

### Y Gymraeg:

- Cymraeg Llafar (siarad) ac Ysgrifenedig Lefel A1* neu dystiolaeth i ddangos ymroddiad parhaus i ddysgu Cymraeg i'r lefel honno.

## Dymunol

- Cymhwyster dysgu neu brofiad cyfwerth.
- Profiad o gynllunio polisi academaidd gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Cymraeg Llafar ac Ysgrifenedig Lefel C1.*

*Gellir gweld manylion am Lefelau'r Iaith Gymraeg yn: aber.ac.uk/cy/hr/policy-and-procedure/welsh-standards



